Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Borth

**Porthaethwy**
**Ynys Môn**
**LL59 5HS**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Y Borth

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Borth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 225 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 181 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 14 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 14.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 8.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 47.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol y Borth yn darparu amgylchedd hapus, cynhwysol a chartrefol lle mae pob disgybl yn cael eu parchu a'u datblygu fel unigolion cyflawn a chyfrifol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn hynod ofalgar o'i gilydd, yn arddangos parch at oedolion ac yn arddangos ymddygiad rhagorol. Mae naws Gymreig amlwg yn treiddio drwy'r ysgol, ac mae staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddinasyddion balch a gwybodus am eu hardal leol a'u hetifeddiaeth genedlaethol.

Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw'r modd y mae staff yn gofalu am iechyd a lles y disgyblion gan sicrhau addysg gyflawn ar eu cyfer yn hynod lwyddiannus. Mae'r berthynas waith gefnogol iawn rhwng yr oedolion a'r disgyblion yn adeiladu hyder ac yn grymuso agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn dyfalbarhau'n dda â'u tasgau ac yn mwynhau dysgu.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn ystod eang o fedrau o'u mannau cychwyn amrywiol, yn enwedig yn eu medrau digidol. Mae staff yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio profiadau dysgu sy'n eang a diddorol iddynt. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn. Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, mae gorddefnydd o daflenni gwaith parod yn arafu cynnydd disgyblion i feithrin eu medrau ysgrifennu ymhellach ar draws y meysydd dysgu, yn enwedig y rhai mwy abl.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r modd y mae staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion feithrin eu medrau mentergarwch yn llwyddiannus drwy ystod werthfawr o brofiadau diddorol, sydd hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd cynaliadwyedd yn fedrus. Mae'r disgyblion yn croesawu rolau arweinyddiaeth ac ymgymryd â chyfrifoldebau niferus ac yn dylanwadu'n gyson ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Cryfder amlwg yn y ddarpariaeth yw'r defnydd a wna staff o'r adeilad a'r ardaloedd allanol eang i greu amgylchedd dysgu ysgogol i'r disgyblion. Maent yn darparu cwricwlwm cyfoethog sy'n cynnwys llais y disgyblion yn rheolaidd am beth yr hoffent ei ddysgu. Er hyn, ar brydiau, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau yn annibynnol ar sut i gwblhau a chyflwyno eu gwaith yn anghyson.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ofalgar ac yn gwbl ymroddedig i'r ysgol. Caiff ei gynorthwyo'n fedrus gan gorff llywodraethol ymroddgar sydd â dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn weithgar ac yn cyfrannu'n gyson i gyfoethogi'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth fuddsoddi'n bwrpasol mewn cyfarpar digidol arbenigol i feithrin medrau ymholi'r disgyblion.

## Argymhellion

A1 Lleihau'r defnydd o daflenni gwaith parod er mwyn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach, yn enwedig y rhai mwy abl

A2 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut y maent yn cyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â darparu profiadau gwerthfawr i feithrin medrau entrepreneuraidd disgyblion, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn grwpiau penodol, yn gwneud cynnydd cryf ar draws ystod o fedrau o’u mannau cychwyn amrywiol, yn enwedig yn eu medrau cymdeithasol a digidol. Yn ogystal, mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n llwyddiannus erbyn iddynt gyrraedd diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn gwrando’n dda. Maent yn talu sylw i gyfarwyddiadau oedolion ac yn gwrando’n ofalus ar eu cyfoedion wrth weithio mewn grwpiau bach ac mewn trafodaethau dosbarth. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf yn dechrau defnyddio iaith lafar â chywirdeb cynyddol gan ymestyn eu geirfa’n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ymateb yn synhwyrol i gwestiynau eu cyfoedion wrth drafod priodweddau siapiau 2D a 3D yn briodol. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu’n ddoeth mewn trafodaethau, yn gwrando’n astud ac yn parchu barn eraill, er enghraifft wrth greu podlediad yn trafod hyd tymhorau a gwyliau ysgol yn llwyddiannus.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol yn y ddwy iaith. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau adnabod llythrennau gan eu cysylltu â’u seiniau’n gynyddol gywir. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn eglur a gyda mynegiant priodol. Maent yn defnyddio dulliau ffoneg yn effeithiol i adnabod geiriau syml a chyfarwydd yn gywir. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn darllen testunau Cymraeg a Saesneg yn ddeallus a gyda rhuglder cynyddol, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o’r cynnwys. Er enghraifft, maent yn defnyddio’u gwybodaeth am stori gymhleth i esbonio gweithredoedd a chymhellion cymeriadau yn fedrus.

O oedran cynnar, mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol. Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau modur mân yn gadarn trwy wneud marciau a dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml ar fyrddau sialc. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu brawddegau diddorol yn gynyddol annibynnol at wahanol bwrpasau wrth ysgrifennu portread o archarwr

o'u dewis, er enghraifft. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn parhau i ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith, ac ar frig yr ysgol, maent yn meddu ar fedrau sillafu, atalnodi a gramadeg cadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ystod o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu ymson teimladwy o safbwynt Santes Dwynwen yn effeithiol. Er hyn, ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cael eu cyfyngu i gofnodi mewn taflenni gwaith parod, sydd yn ei dro, yn cyfyngu eu gallu i ysgrifennu'n rhydd ar adegau.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau rhifedd ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. O oedran cynnar, maent yn defnyddio gwrthrychau bob dydd yn bwrpasol i gyfrif rhifau hyd at 20 yn gywir, ac yn cymhwyso eu dysgu'n llwyddiannus mewn cyd-destunau ymarferol, gwerthfawr. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio mesuriadau safonol yn gywir ac yn cofnodi eu cyfrifiadau ysgrifenedig yn briodol. Er enghraifft, yn yr ardal ddysgu allanol, maent yn cymhwyso eu medrau mesur a thrin arian yn effeithiol wrth fesur gwahanol gyfaint o siampŵ ar gyfer golchi ceir a'i werthu yn y garej. Ym Mlwyddyn 3 a 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau trin data yn hyderus wrth greu a dehongli graff bar i ddangos manylion Chwarelwyr Dinorwig ym 1899. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn cymhwyso ystod dda o fedrau rhif i ddatrys problemau mathemategol bywyd go iawn yn hyderus. Fel rhan o brosiect mentergarwch, maent yn cyfrifo cost ac elw posibl yn ofalus wrth ddylunio, cynhyrchu a gwerthu crysau-t unigryw i'w cyfoedion.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. O oedran cynnar, maent yn defnyddio llechen gyfrifiadurol yn briodol i gofnodi ac uwchlwytho eu gwaith yn gynyddol annibynnol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfarwyddo tegan rhaglenadwy yn hyderus i gyrraedd gwahanol gymeriadau o stori 'Y Tri Mochyn Bach'. Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, mae'r rhan fwyaf ym Mlwyddyn 3 a 4 yn ymchwilio i ystod eang o wefannau i gywain gwybodaeth wrth greu cyflwyniadau digidol effeithiol am y planedau. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o feddalwedd rhaglennu yn fedrus, sy'n cynnwys defnyddio mesurydd curiad y galon yn gywir i gasglu a dehongli mesuriadau mewn taenlen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol cadarn gan fanteisio'n llawn ar amrywiaeth eang o gyfleoedd i gadw'n heini yn ystod eu sesiynau dysgu ac amseroedd egwyl a chinio. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth meithrin yn datblygu eu medrau cydbwyso yn effeithiol wrth reoli beiciau dwy olwyn yn egnïol ar y buarth, tra bod y rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn cyfranogi'n hyderus mewn sesiynau criced, nofio a gymnasteg. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn fedrus i efelychu artistiaid enwog, ac wrth gynhyrchu potiau clai Celtaidd hynod drawiadol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o fewn amgylchedd cynhwysol, gofalgar a chartrefol yr ysgol. Mae gan ddisgyblion berthynas waith gadarn â staff sydd wedi'i seilio ar ymddiriedaeth a pharch, ac maent yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Mae bron bob disgybl yn teimlo eu bod yn cael eu

gwerthfawrogi, eu parchu a'u trin yn deg gan staff. O ganlyniad, mae bron bob un yn ymddwyn yn rhagorol yn ystod eu sesiynau dysgu ac wrth chwarae gyda'u ffrindiau, sy'n cyfrannu'n effeithiol at gyfraddau presenoldeb cryf gan ddisgyblion.

Nodwedd arbennig o fywyd a gwaith yr ysgol yw parodrwydd bron bob disgybl i ddangos gofal ac ystyriaeth ofalus tuag at ei gilydd gan ddangos gwerthfawrogiad cyson at gyfraniadau eu cyfoedion. Bron heb eithriad, ar fynediad i'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu gan ddangos diddordeb cynhenid yn eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n ddiwyd ac yn arddangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth ymwneud â'u gweithgareddau dysgu yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, maent yn defnyddio strategaethau pwrpasol yn fedrus i'w cynorthwyo i oresgyn unrhyw anawsterau sy'n eu hwynebu. Mae hyn yn eu cynorthwyo'n dda i ymdopi â heriau sy'n peri sialens iddynt. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus sy'n barod i ddysgu.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'r corff a'r meddwl yn iach. Maent yn gwerthfawrogi cyfleoedd rheolaidd a gânt i gadw'n heini ac yn mwynhau gwneud defnydd pwrpasol ac egnïol o'r offer sydd ar gael iddynt yn yr ardaloedd dysgu allanol, ac yn ystod cyfnodau egwyl. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd cyson i gyfranogi mewn sesiynau addas i ymlacio'r corff a'r meddwl. Mae'r sesiynau hyn yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion hunanreoli eu hemosiynau ac i werthfawrogi cyfnod i fyfyrio. At ei gilydd, mae'r gweithgareddau amrywiol hyn yn datblygu disgyblion i fod yn unigolion iach a hyderus.

Bron heb eithriad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel wrth ddysgu ar-lein, ac i beidio â rhannu eu manylion personol â dieithriaid. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n bwrpasol gan ymweliadau rheolaidd gan yr heddwas cymunedol sy'n cynnig sesiynau buddiol ar ystod o themâu sy'n atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd diogelwch yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod oedolion yn gwrando'n dda ar eu barn ac yn ei hystyried yn dda mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd i ddylanwadu ar yr hyn maent eisiau ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Ar gychwyn bob tymor, mae disgyblion yn rhannu eu syniadau gan ychwanegu cwestiynau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddarganfod a'i ddysgu ar ddechrau thema newydd. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio adborth yn effeithiol i symud eu dysgu ymlaen yn bwrpasol wrth ymateb i sylwadau staff a chyfoedion.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai mewn grwpiau penodol, yn cael cyfleoedd llwyddiannus i ymgymryd â rolau arwain yn effeithiol. Maent yn trafod cyfrifoldebau yn frwdfrydig, yn cynnig rhesymau synhwyrol dros wneud penderfyniadau penodol ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiant. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn cael dylanwad da ar hybu'r Gymraeg a Chymreictod y disgyblion yn llwyddiannus gan sicrhau eu bod yn cael eu trochi'n ddyddiol mewn cerddoriaeth gan artistiaid Cymreig adnabyddus. Gyda chefnogaeth glòs y 'Bydis Buarth', maent yn gofalu bod digon o offer chwarae ar gael yn ystod amseroedd egwyl a chinio i hyrwyddo awyrgylch o gyd-chwarae dedwydd ymysg disgyblion.

Mae bron bob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Maent yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod eu teimladau ag eraill ac i ddangos empathi tuag at gymunedau sydd mewn cyfyngder. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn trafod eu hawliau sylfaenol yn aeddfed wrth uniaethu â sefyllfa Ann Frank fel rhan o'u gwaith thema am gyfnod yr Ail Ryfel Byd. Mae hyn yn dwysáu eu hymwybyddiaeth am degwch a chydraddoldeb yn dda. Trwy godi arian at waith elusennol amrywiol a chyfrannu'n hael at y banc bwyd lleol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin ymwybyddiaeth gref o anghenion eraill mewn cymunedau gwahanol. Mae hyn yn dwysáu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae staff yn darparu cwricwlwm cyfoethog a phrofiadau sy'n tanio dychymyg disgyblion yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o anghenion eu disgyblion a'u harddull ddysgu gan ddefnyddio'r wybodaeth honno'n synhwyrol wrth gynllunio profiadau dysgu diddorol iddynt. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar ystod eang o gyfleoedd cyfoethog ar draws ehangder y cwricwlwm sy'n cymell ac yn ymgysylltu â bron bob disgybl.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu. Trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, mae disgyblion yn cynnig syniadau defnyddiol am yr hyn yr hoffent ei ddysgu ar gychwyn eu themâu newydd. Mae hyn yn meithrin perchenogaeth disgyblion dros eu dysgu, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol wrth ennyn a chynnal eu chwilfrydedd wrth ymroi i dasgau. Yn yr arfer orau, mae staff yn sicrhau cydbwysedd medrus rhwng gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolyn a chyfleoedd i ddisgyblion  wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu. Er hyn, ar brydiau, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau annibynnol ar sut i gwblhau a chyflwyno eu gwaith.

Mae staff yn cyfoethogi'r cwricwlwm wrth wneud defnydd llwyddiannus o gynefin disgyblion. Trefnir ymweliadau gwerthfawr i ddisgyblion i ymweld â mannau o ddiddordeb hanesyddol a diwylliannol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ymweld ag amgueddfa leol i ddwysáu eu gwybodaeth am fywyd ac amodau gwaith y chwarelwyr. Mae staff yn darparu profiadau cofiadwy i ddisgyblion fynychu cyrsiau preswyl, sy'n cael dylanwad cadarn ar feithrin eu gwydnwch a'u gallu i gydweithio â'u cyfoedion.

Trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, mae disgyblion yn cael profiadau dysgu bwriadus sy'n eu hysbrydoli i godi eu dyheadau am yrfaoedd a'r byd gwaith. Fel rhan o'u gwaith thema am 'archarwyr', mae'r disgyblion ieuengaf yn gofyn cwestiynau i'r tîm achub mynydd a'r frigâd dân, er enghraifft, am eu rôl wrth gadw pawb yn ddiogel yn y gymuned.

Elfen nodedig o waith yr ysgol yw'r modd mae staff yn darparu profiadau cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso ystod eang o fedrau wrth ymgymryd â heriau mentergarwch yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn meddu ar fedrau creadigol a datrys problemau cadarn wrth greu brics papur o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ac yna eu gwerthu i aelodau o gymuned ehangach yr ysgol. Mae hyn yn dwysáu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac yn meithrin eu medrau i drin arian yn

hynod lwyddiannus. Fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion hynaf ddwysáu eu hymwybyddiaeth o'r newidiadau sy'n digwydd iddynt yn ystod cyfnod blaenlencyndod.

Cryfder amlwg yn y ddarpariaeth yw'r modd mae staff y dysgu sylfaen yn creu amgylcheddau dysgu ysgogol ac yn gwneud defnydd medrus o'r ardaloedd dysgu eang i ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion ieuengaf. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn cymhwyso eu medrau mesur yn gywir wrth ymchwilio i weld pa debot fyddai orau ar gyfer arllwys te i ffrindiau Siôn y Cawr yn ei barti.

Ar draws yr ysgol, ceir perthnasoedd waith cynnes a chefnogol rhwng staff a disgyblion. Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn gosod disgwyliadau uchel ar eu cyfer, gan gynnwys ar gyfer eu hymddygiad, ac yn eu cynorthwyo i fodloni'r rhain yn gyson. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod disgyblion yn barod i ddysgu ac i wneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser.

Yn ystod sesiynau dysgu, mae staff yn holi disgyblion yn fedrus i wirio'u dealltwriaeth ac i'w hannog i ymestyn ar eu hymatebion cychwynnol. Maent yn darparu adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod eu gweithgareddau dysgu, ynghyd â chynnig sylwadau adeiladol sy'n ymwneud yn benodol â'r meini prawf llwyddiant a bennwyd ar gyfer tasg penodol. Maent yn darparu cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ymateb i'w gwaith eu hunain, ac i waith eu cyfoedion. Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, mae athrawon yn gwneud gorddefnydd o daflenni gwaith parod yn ystod gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion ehangu ar eu gwaith ysgrifennu ar adegau, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae staff yn hyrwyddo ethos Cymreig yn llwyddiannus ac yn defnyddio caneuon a hwiangerddi'n effeithiol i atgyfnerthu patrymau iaith ac i ymestyn geirfa disgyblion yn fedrus. Mae'r holl staff yn arddel a defnyddio Cymraeg graenus i atgyfnerthu iaith lafar y disgyblion. O ganlyniad, mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at fagu hyder disgyblion i ddefnyddio'r iaith yn effeithiol wrth ymgymryd â'u gweithgareddau dysgu ac wrth chwarae gyda'u ffrindiau.

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni yn gynhwysfawr ac yn adrodd yn effeithiol ar les a chynnydd eu plant. Maent yn cynnwys sylwadau'r disgybl ac yn cyflwyno agweddau synhwyrol i rieni i gefnogi eu plant ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r berthynas waith agos rhwng y staff a'r disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn cyfrannu'n hyfryd at greu cymuned ddysgu ofalgar a theuluol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn adnabod y disgyblion yn arbennig o dda ac maent yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae agweddau cadarnhaol y staff yn cefnogi'r disgyblion i ymgartrefu'n sydyn a chyfrannu'n dda at fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n briodol at feithrin lles emosiynol y disgyblion a'u hannog i hyrwyddo agweddau cadarn at eu dysgu yn llwyddiannus.

Elfen nodedig o waith yr ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae staff yn darparu dulliau effeithiol i ddisgyblion fynegi eu teimladau a

rheoli eu hemosiynau'n effeithiol, er enghraifft wrth wneud defnydd pwrpasol o ffaniau rhif neu ddewis pa anghenfil lliwgar sy'n cyfleu eu teimladau orau. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod staff yn ymateb yn ddiymdroi os yw disgybl yn teimlo'n bryderus neu'n anhapus. Yn ychwanegol, mae'r defnydd o'r 'Ardal Glyd' yn cyfrannu'n gynhyrchiol at ddarparu hafan ddiogel i ddisgyblion sy'n bryderus i ymdawelu cyn iddynt ailgydio yn eu dysgu. O ganlyniad, mae staff yn addasu'r ddarpariaeth yn fedrus gan ddangos empathi i unigolion wrth ymateb i sefyllfaoedd annisgwyl sy'n gallu codi.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn. Mae'r cydlynwyr ADY (CADY) a'r cymorthyddion dysgu yn hynod frwdfrydig am eu cyfrifoldebau wrth gefnogi disgyblion. O ganlyniad, maent yn adnabod disgyblion sydd angen cynhaliaeth ychwanegol yn amserol ac yn darparu ystod o raglenni cefnogi addas sy'n targedu eu hanghenion penodol yn llwyddiannus. Mae staff yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ynglŷn â threfniadau ADY, gan gynnwys y disgyblion sy'n rhan ganolog o'r broses. O dan arweiniad medrus y ddwy CADY, mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol i gyfoethogi'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth gydweithio'n agos â'r tîm rhyngweithio a chyfathrebu a'r tîm therapi iaith a lleferydd i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cefnogaeth ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn amrywiol.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd mae staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru. Caiff y disgyblion ieuengaf, er enghraifft, berfformiad byw gan sioe deithiol sy'n dwysáu eu hymwybyddiaeth o'r diwydiant gwlân yng Nghymru yng nghyfnod y chwyldro diwydiannol. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned leol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr orymdaith flynyddol ym Mhorthaethwy i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, mae staff yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ymgysylltu â'r celfyddydau mynegiannol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn cymryd rhan yn egnïol wrth berfformio mewn gweithdy drymio Affricanaidd. Mae'r profiadau hyn yn annog disgyblion i gyfrannu syniadau creadigol a'u gallu i weithio'n dda fel aelod o dîm.

Mae staff yn darparu cyfnodau cyd-addoli bwriadus i ddisgyblion feithrin eu medrau moesol ac ysbrydol yn briodol. O ganlyniad, mae'r cyfnodau hyn yn eu hannog i fyfyrio'n dawel ar agweddau ysbrydol a chrefyddol. Caiff disgyblion gyfleoedd addas i ddwysáu eu dealltwriaeth o natur amlddiwylliannol cymdeithas, er enghraifft wrth astudio bywyd pobl ddylanwadol fel Betty Campbell a Rosa Parks. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarn at ddathlu amrywiaeth.

Mae staff yn dwysáu dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn addysgu disgyblion sut i dyfu llysiau yng ngardd yr ysgol a sut i ddefnyddio'r cynnyrch i greu prydau iachus yn y Clwb Coginio. Yn ogystal, mae'r profiadau hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach mewn perthynas â'u deiet.

Mae staff yn datblygu cyfleoedd priodol i ddisgyblion wneud penderfyniadau am yr ysgol drwy eu haelodaeth ar y cyngor ysgol. Darperir cyfleoedd bwriadus iddynt fynegi eu barn ar sut i wella gwahanol agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn

cyfarfod gyda'r cwmni arlwyo ar gyfer trafod y fwydlen bresennol gan awgrymu datrysiadau i geisio lleihau gwastraff bwyd yr ysgol.

Cynigir cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon sy’n datblygu eu gwydnwch a’u medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r tîm pêl-droed wedi dod yn fuddugol mewn cystadleuaeth yn ddiweddar a’r tîm pêl-rwyd wedi cynrychioli ysgolion Môn mewn twrnamaint cenedlaethol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan yn y celfyddydau, er enghraifft wrth gystadlu a phrofi llwyddiant wrth lefaru, canu a dawnsio yn yr Eisteddfod.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu disgyblion, ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer monitro ac olrhain presenoldeb disgyblion yn gadarn. Mae arweinyddion yn cadw cofnodion priodol o achosion o absenoldeb. Maent yn cysylltu â rhieni a’r swyddog lles yn amserol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant gan ddarparu cynhaliaeth werthfawr, pan fo’n briodol. Mae’r trefniadau hyn wedi sicrhau bod presenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn dda.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth yn arweinydd doeth, cadarn a chwbl ymroddedig i’r ysgol sy’n rhoi lles ei staff a'r disgyblion yn ganolog i’w waith. Mae’n llwyddo i greu cymuned ddysgu ofalgar, hapus a chynhwysol ble mae cyfraniad pawb yn cael ei gydnabod a’i werthfawrogi. Caiff y pennaeth ei gefnogi’n fedrus gan aelodau’r tîm rheoli, ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy’n ‘agor drysau i’r dyfodol’ i’r disgyblion. Maent yn cyfleu’r weledigaeth hon yn glir i ddisgyblion, y staff, y rhieni, y llywodraethwyr ac aelodau’r gymuned ehangach.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y disgyblion a’r staff. Mae’r tîm egnïol o staff yn cydweithio’n effeithiol er mwyn darparu profiadau dysgu ysgogol a difyr sy’n tanio dychymyg ac yn diwallu anghenion bron bob disgybl. O ganlyniad, maent yn cyflawni eu rolau’n gydwybodol a gyda dealltwriaeth gadarn o brif flaenoriaethau’r ysgol. Maent yn arddel gwerthoedd da ac ymddygiad proffesiynol uchel sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at gynnal safonau ymddygiad rhagorol gan ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn gadarn. Er enghraifft, maent wedi gwreiddio egwyddorion a disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru yn briodol ac yn gweithredu elfennau allweddol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gadarn. Mae arweinwyr a staff yn rhoi blaenoriaeth amlwg i ddatblygu medrau Cymraeg a balchder bob disgybl o Gymru. Trwy drefnu ymweliadau pwrpasol i fannau o ddiddordeb lleol, fel y Tŵr Marcwis a gorsaf Gwylwyr y Glannau ym Moelfre, maent yn meithrin disgyblion sy’n ymfalchïo’n eu milltir sgwâr yn llwyddiannus.

Mae staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Mae’r cymorthyddion dysgu yn aelodau annatod o dîm yr ysgol ac maent yn cyfrannu’n werthfawr at wella cyflawniadau dysgu, medrau emosiynol a chymdeithasol disgyblion trwy weithredu rhaglenni cefnogi lles bwriadus a ariennir yn

rhannol gan y grant datblygu disgyblion. Mae hyn yn cael effaith cyson dda ar ddatblygu hyder a chynnal ymddygiad disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer gwerthuso cynnydd disgyblion a'r ddarpariaeth. Gweithredir amserlen glir a manwl sy'n arwain trefniadau hunanwerthuso a gwella'r ysgol, sy'n cynnwys ystod dda o weithgareddau monitro bwriadus y mae arweinwyr a staff yn eu gweithredu'n gydwybodol. Mae'r adroddiadau monitro yn fanwl ac yn adnabod cryfderau ac agweddau sydd angen eu gwella yn gywir. Mae arweinwyr yn defnyddio deilliannau'r gweithgareddau hyn yn effeithiol i bennu blaenoriaethau synhwyrol ar gyfer gwelliant.

Mae'r corff llywodraethol yn eiriolwyr cryf i'r ysgol ac yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda iawn. Maent yn darparu cymorth a her briodol i'r pennaeth ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol a llwyddiannus. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymgymryd yn drwyadl ag ystod o weithgareddau monitro a gwerthuso perthnasol, er enghraifft wrth ymgymryd â theithiau dysgu a thrafod safonau disgyblion mewn mathemateg ochr yn ochr â staff. Yn ogystal, mae'r pennaeth yn manteisio ar arbenigeddau aelodau o'r corff yn fedrus i gefnogi gwaith yr ysgol, er enghraifft wrth gynnal teithiau diogelu safle. O ganlyniad i'w dealltwriaeth gadarn o weithgareddau'r ysgol, mae ganddynt adnabyddiaeth dda o gryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Yn ddiweddar, maent wedi cydweithio'n llwyddiannus â'r ysgol i ennill grant ar gyfer adfywio llecyn ar y buarth i dyfu a chynaeafu llysiau ar gyfer eu defnyddio yn y Clwb Coginio ac i'w gwerthu i'r gymuned ehangach. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd bwriadus hyn yn meithrin disgyblion moesegol a gwybodus sy'n caffael medrau mentergarwch gwerthfawr.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Maent yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn canolbwyntio'n synhwyrol ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant. Ochr yn ochr â grantiau amrywiol a chyfraniadau gwerthfawr gan y gymdeithas rhieni ac athrawon, mae arweinwyr yn buddsoddi'n ddoeth mewn adnoddau i gyfoethogi'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd dysgu allanol.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Maent yn cynnig cyfleoedd cyfoethog iddynt ymgymryd ag ystod dda o gyfleoedd dysgu proffesiynol, sy'n ymateb i'w gofynion unigol a blaenoriaethau'r ysgol yn gadarn. Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau a chynorthwyo ei gilydd, er enghraifft wrth addasu a chysoni arddull y 'cardiau sialensiau' i feithrin medrau dysgu annibynnol y disgyblion ieuengaf wrth iddynt ymgymryd â'u gweithgareddau'n ddiwyd yn yr ardaloedd dysgu.

Mae gan yr ysgol berthynas gynhyrchiol â'r ysgol uwchradd gyfagos. Er enghraifft, mae staff o'r ysgol uwchradd yn ymweld â'r ysgol i gynnal sesiynau dysgu mathemateg ac addysg gorfforol fuddiol gyda'r disgyblion hynaf er mwyn hwyluso trefniadau pontio effeithiol.

Mae gan arweinwyr berthynas gadarn â rhieni ac maent yn sicrhau bod ganddynt brosesau cyfathrebu effeithiol i'w galluogi i godi unrhyw faterion a all effeithio ar les a

dysgu eu plant. Croesewir rhieni i weithgareddau'r ysgol yn y gymuned, er enghraifft i wylio eu plant yn ailadrodd eu perfformiadau yn yr Eisteddfod a chymryd rhan yn egnïol yn y sioe dathlu doniau flynyddol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2024